## CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR 24/10/24

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Linda Ann Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Annwen Hughes.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Hefin Underwood ar golli ei frawd yn ddiweddar.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd a chroesawyd y Cynghorydd Gwilym Evans, yr aelod newydd dros Ward Llanberis, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor. Diolchwyd hefyd i'w ragflaenydd, Kim Jones, am ei holl waith.

Nodwyd y bu'n gyfnod o newid yn ddiweddar a diolchwyd i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn am ei waith diflino yn arwain y Cyngor ers 2017. Eglurwyd y bydd cyfle i ddiolch iddo yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Diolchwyd hefyd i'r Cynghorwyr Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Dafydd Meurig ac Elin Walker Jones am eu gwaith caled fel Aelodau Cabinet.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda'r trefniadau i adnabod yr Arweinydd nesaf dros y dyddiau i ddod.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – PENDERFYNIAD AR FABWYSIADU SUSTEM PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol yn nodi bod Adran 8 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn caniatáu i unrhyw brif gyngor ddewis rhwng Sustem Mwyafrif Syml ("cyntaf heibio'r postyn") neu Sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ("PSD") ar gyfer prif gynghorau, ac yn gwahodd y Cyngor i ystyried y cwestiwn statudol a ganlyn yn dilyn cynnal ymgynghoriad ar newid y drefn bleidleisio:-

Yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu sustem pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd o hyn ymlaen.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Yn ôl gofynion y Ddeddf, y galwyd y cyfarfod hwn i drafod y penderfyniad yma yn unig.
- Y cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 Gorffennaf ac 15 Medi eleni.
- Yn unol â phenderfyniad y Cyngor, yr ymgynghorwyd ag etholwyr llywodraeth leol Gwynedd a chynghorau tref a chymuned, sef y gofyn statudol, a bod dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad i'w gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Y cynhaliwyd proses ymgynghori eang gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg a llyfrgelloedd y sir. Yn ogystal, anfonwyd yn uniongyrchol at bob cyngor tref a chymuned yng Ngwynedd.
- Bod yr ymgynghoriad wedi derbyn sylw eang yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Y cymerwyd camau dros gyfnod yr ymgynghoriad i ail-wthio'r wybodaeth.
- Mai amcan ymgynghoriad yw ceisio barn ar fwriad, ac nid cynnal refferendwm ar y cwestiwn, a bod canlyniad ymgynghoriad yn cyfrannu at yr ystyriaethau, yn hytrach na dyfarnu ar y cyfeiriad.
- Ei bod yn ofynnol i benderfyniad y Cyngor, beth bynnag y bo, fod yn seiliedig ar ystod o ystyriaethau, gan gynnwys cloriannu canlyniadau'r ymgynghoriad.
- Petai'r aelodau yn pleidleisio o blaid symud i Sustem PSD, byddai'n gyfle hanesyddol i Gyngor Gwynedd arwain Cymru wrth ymuno â'r Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn eu defnydd o'r sustem, yn hytrach nag aros gyda Lloegr ar y Sustem Cyntaf Heibio'r Postyn.
- Bod pob pleidlais yn bwysig ac y dylai pob llais gael ei glywed.
- Yn yr etholiad diwethaf, bod 28 o'r 69 sedd ar Gyngor Gwynedd yn ddiwrthwynebiad, ac ers cyflwyno Sustem PSD yn yr Alban yn 2017, roedd yna lai o

seddi diwrthwynebiad yng nghyfanswm pob etholiad nag a fu mewn un etholiad yng Ngwynedd yn unig yn 2022.

- Bod Cyngor Gwynedd yn aml yn arwain y ffordd o ran cyflwyno polisïau sy’n torri tir newydd, felly pam nid hwn?
- Bod y Sustem PSD yn safon aur ar gyfer sustemau etholiadol a chredid mai dyma’r peth iawn i’w wneud i bleidleiswyr, i’r Cyngor a dros ddemocratiaeth yng Ngwynedd. Gan hynny, cynigid bod y Cyngor yn pleidleisio o blaid cyflwyno Sustem PSD ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.
- Petai’r Cyngor yn penderfynu mabwysiadu Sustem PSD, byddai hynny’n arwain at gyfarwyddyd gan y Gweinidog i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnal adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd.
- Mai amcan y broses fyddai creu wardiau newydd o rhwng 3-6 aelod, sy’n ofynnol er gweithredu’r sustem.
- Y byddai’r Comisiwn, yn unol â’r cyfarwyddyd a dderbynnid, yn cynnal proses sy’n ymdebygu i’r adolygiad etholiadau blaenorol yn 2017 – 2021. Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, byddai’n rhaid i’r Comisiwn, drwy broses ymgynghorol, ddatblygu model yn unol â’r gofynion. Ar ganlyniad y broses, byddai’r Gweinidog yn cyhoeddi gorchymyn yn newid trefniadau etholiadol Gwynedd.

Amlygodd y Swyddog Monitro rai pwyntiau ychwanegol o ran y drefn, sef:-

- Bod y cyfarfod hwn wedi’i alw yn unol â’r drefn statudol sy’n rhaid ei dilyn o ran rhoi rhybudd o’r cyfarfod, ayb.
- Y bu’n rhaid oedi’r broses ymgynghori oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU ym mis Gorffennaf.
- Yn unol â’r drefn statudol, y gofynnwyd i ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu gwybodaeth er mwyn gallu gwirio eu bod ar y gofrestr etholiadol bresennol ar gyfer llywodraeth leol.
- Nad oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhelliad na phenderfyniad a geisir gan mai ond un cwestiwn statudol oedd yna ar gyfer y bleidlais. Hefyd, oherwydd yr angen i ddwy ran o dair o nifer y seddau ar y Cyngor bleidleisio o blaid, dim ond un cwestiwn statudol oedd gerbron, a gofynnid i’r aelodau bleidleisio ar y cwestiwn hwnnw.
- Petai’r Cyngor yn mabwysiadu Sustem PSD, ni fyddai’n bosib’ ail-ymweld â’r penderfyniad am ddau gylch etholiadol.

Cynigiwyd y cwestiwn statudol gan yr Aelod Cabinet ac fe’i eiliwyd.

Rhoddwyd cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Ar fater o drefn y cyfarfod, holwyd a oedd aelodau Grŵp Plaid Cymru wedi derbyn cyfarwyddyd yn lleol neu’n genedlaethol ar sut i bleidleisio ar y mater. Mewn ymateb, eglurwyd na ellid gofyn cwestiwn i rywun arall yn ystod trafodaeth, ond bod modd i aelod o’r grŵp gymryd y cyfle i ateb y cwestiwn wrth siarad yn nes ymlaen.

Yna codwyd y cwestiynau canlynol ynglŷn â’r adroddiad:-

- A oedd y swyddogion yn hapus gyda’r ymateb i’r ymgynghoriad o ystyried ei fod yn anghynrychioliadol o boblogaeth y sir gyda 29% yn unig o’r ymatebwyr yn siarad Cymraeg a 38% yn disgrifio’u hunain fel Cymry?
- O ddarllen sylwadau’r cynghorau tref a chymuned yn fanwl, a oedd yn wir i ddweud bod rhai o’r sylwadau a nodwyd fel rhai o blaid cyflwyno Sustem PSD yn bwrw amheuaeth ynglŷn â’r drefn mewn gwirionedd drwy fynegi pryder ynglŷn â chynyddu maint wardiau?

- Sut bod modd cysoni'r ffaith bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol yn nodi nad oedd yr ymgynghoriad wedi adnabod unrhyw ardrawiadau negyddol, ond bod sylwadau Cyngor Cymuned Llannor yn cyfeirio at effaith andwyol bosib' ar y Gymraeg?

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Nad lle'r swyddogion oedd rhoi barn ar briodoldeb lefel yr ymateb i'r ymgynghoriad, ond ei fod ymhlith yr uchaf a gafwyd i ymgynghoriadau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn adlewyrchu'r lefel ymateb a geir yn gyffredinol i ymgynghoriadau o'r math yma.
- Bod yr holl wybodaeth a gasglwyd wedi'i gynnwys yn y papurau er mwyn i'r aelodau ddod i'w casgliadau eu hunain ar y canlyniadau a'r safbwyntiau a gyflwynwyd.
- O ran yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, bod rhaid asesu yn y diwedd beth yw trwch helaeth yr ymateb a'r ardrawiad, a rhan o'r wybodaeth yn unig oedd yr ymgynghoriad. Canfyddiad yr asesiad oedd bod yr effaith yn niwtral ar yr iaith Gymraeg a nodweddion eraill, ac roedd hynny'n seiliedig ar y dystiolaeth gyfansawdd. Gan hynny, credid bod yr asesiad yn gywir ac yn gytbwys o ran yr ymatebion.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyflwynwyd nifer o sylwadau o blaid ac yn erbyn mabwysiadu Sustem PSD ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd. Wrth gyflwyno ei sylwadau, cadarnhaodd Cadeirydd Grŵp Plaid Cymru, er mai polisi cenedlaethol Plaid Cymru yw i gefnogi Sustem PSD ar bob lefel, nad oedd y Grŵp wedi derbyn unrhyw chwip na chyfarwyddyd o'r canol ar sut i bleidleisio, a bod rhai o aelodau'r Grŵp yn bwriadu pleidleisio o blaid Sustem PSD, ac eraill yn erbyn.

Roedd y rhesymau dros gefnogi Sustem PSD yn cynnwys :-

- Bod Sustem PSD yn cynhyrchu canlyniadau sy'n fwy cynrychioliadol o'r ffordd mae pobl yn pleidleisio.
- Bod y Sustem Mwyafrif Syml yn creu mwyafrifoedd allan o leiafrifoedd a'i bod yn deg cael sustem sy'n adlewyrchu'r gyfran o'r bleidlais.
- Bod yr holl bartïon gwleidyddol ar draws y DU yn cael anhawster dod o hyd i ymgeiswyr, a bod y Sustem PSD yn un ffordd o wneud hynn. Trwy ddefnyddio'r ymgeiswyr hynny gellid sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i bleidleisio drostynt.
- Bod y drefn bresennol wedi torri a bod pobl yn cwestiynu pa fandad sydd gan gynghorwyr sydd wedi dod ar y Cyngor yn ddiwrthwynebiad.
- Bod y Sustem PSD yn adlewyrchu dymuniadau'r etholwyr yn well.
- Ei bod yn ymddangos bod sustem wardiau aml-aelod yn gweithio'n iawn yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac roedd y drefn yn boblogaidd hefyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan fod modd i etholwyr gysylltu â mwy nag un cynghorydd i gael datrysiad i broblem.
- Nad oedd creu wardiau aml-aelod yn golygu colli'r cyswllt lleol gan y byddai'r cynghorwyr yn dal yn adnabyddus yn yr ardal, a golygai rhannu sedd rannu'r baich yn ogystal.
- Nad oedd y drefn bresennol yn gyfrannol nac yn deg. Er enghraifft, yn yr Etholiad Cyffredinol diwethaf, enillodd Llafur 80% o'r seddi yng Nghymru gydag ychydig dros draean o'r pleidleisiau yn unig.
- Bod y drefn bresennol yn wastraffus gyda phleidleisiau'r mwyafrif o bobl yn arwain at ethol neb. Er enghraifft, yn yr Etholiad Cyffredinol diwethaf roedd 18,500 o etholwyr Meirion Dwyfor wedi mynd allan i bleidleisio ac wedi ethol neb. I'r gwrthwyneb, roedd pob pleidlais yn cyfri' gyda Sustem PSD.
- Bod y Sustem PSD yn grymuso'r etholwr ar draul pleidiau gwleidyddol gan ei bod yn caniatáu i bobl bleidleisio dros unigolion yn ogystal â phlaid. Gan hynny, roedd yn

iachach i drefn ddemocrataidd yn y pen draw gan nad yw'n rhoi gormod o'r grym yn nwylo pleidiau.

- Y byddai Sustem PSD yn arwain at wleidyddiaeth fwy caredig gan fod pobl yn gorfod chwilio, nid yn unig am bleidleisiau cyntaf iddyn nhw eu hunain, ond 2il, 3ydd a 4ydd pleidlais i bobl eraill. Hefyd, byddai yna lai o demtasiwn i bobl ladd ar ei gilydd, yn enwedig felly yng nghyfnod etholiad.
- Bod y Cyngor hwn wedi'i ddisgrifio'n ddiweddar fel un o gynghorau mwyaf blaengar Cymru oherwydd materion fel y Premiwm Treth Cyngor ac Erthygl 4, a dymunid gweld Gwynedd yn parhau i arwain Cymru fel cyngor blaengar arweiniol drwy fabwysiadu Sustem PSD.
- Mai un o nodweddion amlycaf Sustem PSD yw ei fod yn annog cynghorwyr i weithio'n galed oherwydd eu bod yn cystadlu yn erbyn cynghorwyr o'r un pleidiau.
- Ei bod yn fater o dristwch bod cyn lleied o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn ymwneud yn llawn â'r broses ddemocrataidd, ac er na fyddai cyflwyno Sustem PSD yn datrys yr holl rwystredigaethau, gallai fynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at fod yn fwy cynhwysol a theg gan wneud i bobl deimlo bod eu pleidlais yn cyfri.
- Y byddai Sustem PSD yn annog gwell dewis, gwell amrywiaeth ac yn rhoi gwell ymdeimlad o gynrychiolaeth i bobl y sir.
- Y deellir bod yna bryderon y gallai Sustem PSD roi troedle i bleidiau asgell dde eithafol, ond rhwystredigaeth wleidyddol sy'n rhannol gyfrifol am yrru pobl i'r cyfeiriad hwnnw. Tybir y byddai pleidiau a grwpiau ymgyrch yr asgell dde o bosib' yn llai atyniadol os yw pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u clywed gan y sustem etholiadol. Nodwyd hefyd nad oes yr un aelod asgell dde eithafol wedi'i benodi yn yr Alban dan y drefn PSD.
- Bod yr aelodau hynny sy'n cynrychioli Dinas Bangor ar y Cyngor hwn eisoes yn cydweithio a rhannu arbenigeddau ar draws ffiniau wardiau, a hefyd ym Mangor yn ehangach oherwydd natur y ddinas.
- Nad oes angen poeni'n ormodol am y newidiadau i'r ffiniau yn sgil mabwysiadu Sustem PSD gan y bydd cyfle i'r Cyngor drafod yr opsiynau sy'n cael eu cynnig gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- O ran pwysau gwaith, na fyddai disgwyl i gynghorwyr fod ar bob cyngor cymuned o fewn y ward dan drefn PSD.
- Nad oes angen poeni am gymhlethdod y Sustem PSD o ran yr etholwyr, ac er bod yna gymhlethdodau yn y cyfri', byddai yna bobl broffesiynol yn gwneud y gwaith.
- Er y derbynnir bod aelodau yn adnabod eu hardal, nid drwg o beth yw iddynt ddod i adnabod ardal fwy eang.
- Na fyddai cynghorwyr ar eu pennau eu hunain mewn wardiau mawr gan y byddai'n rhaid iddynt weithio gyda phobl eraill. Credir mai da o beth fyddai hynny o ran dod i ddeall a gwerthfawrogi safbwyntiau pobl eraill.
- Bod y drefn bresennol yn methu rhoi dewis digonol i bobl Gwynedd ac yn methu denu pobl allan i bleidleisio.
- Bod y Sustem PSD yn llwyddo i ddenu mwy o bobl ifanc, mwy o ferched a mwy o bobl sy'n adlewyrchu cymdeithas yn well i mewn i wleidyddiaeth.

Roedd y rhesymau dros wrthwynebu Sustem PSD yn cynnwys:-

- Bod peryg' i'r wardiau mawr fyddai'n cael eu creu dan Sustem PSD wanhau'r berthynas rhwng cynghorwyr sir a'r cymunedau maent yn eu cynrychioli.
- Bod rhai cynghorwyr eisoes ar 3 cyngor cymuned ynghyd â chyrff llywodraethol ysgolion, a byddai'r gofynion hynny yn cynyddu petai'r wardiau yn cael eu hymestyn.
- Bod Sustem PSD yn gweddu'n well i wleidyddiaeth genedlaethol na gwleidyddiaeth leol.
- Bod y Sustem Mwyafrif Syml yn drefn lle mae'r ffiniau yn gwbl hysbys, yn drefn lle mae cynghorwyr yn byw ac wedi'u magu ymhlith eu hetholwyr a gydag

adnabyddiaeth a dealltwriaeth dda o'u hardal ac yn drefn lle mae cynghorwyr yn cynrychioli ardal sydd â'i ffiniau nid nepell o'u cartrefi.

- Bod y drefn bresennol o ethol yn gwbl eglur ac mae'n hawdd casglu pwy sydd wedi ennill. I'r gwrthwyneb, mae'r Sustem PSD yn broses ddrud ac aneglur sy'n cymryd tua deuddydd i gyfri'r pleidleisiau ac yn gallu costio tua £16,000.
- Nad oedd yn wir i ddweud y bydd pob pleidlais yn cyfri' dan Sustem PSD gan y bydd yna bobl yn colli, a'r un nifer o gynghorwyr fydd yn cael eu hethol yn y pen draw.
- Bod myth bod Sustem PSD yn mynd i ennyn cydweithio ond credir mai'r realiti fydd diffyg atebolrwydd, pobl yn cynrychioli ardaloedd rhy fawr a neb yn ymdrin â materion neilltuol lleol.
- Bod sôn y byddai Sustem PSD yn fwy cynhwysol, ond yn sicr mae'n drefn sy'n mynd i ffafrio partïon gwleidyddol a'u tactegau.
- Y byddai Sustem PSD yn arwain at golli'r cyswllt personol gyda'r cynghorydd lleol, gan mai cynghorwyr rhanbarthol fydd yna bellach. Hefyd, byddai yna golli cyfrifoldeb o faterion lleol, colli dirnadaeth ar faterion lleol ac adnabyddiaeth o'r ardal.
- Yn naturiol, bydd wardiau 3-6 aelod hefyd 3-6 gwaith yn fwy o ran maint, ac ni all unrhyw un wneud cyfiawnder â ward mor enfawr ac anhylaw a chynrychioli'r holl etholwyr o fewn y ward honno. Bydd felly'n fater o ddewis a dethol a rhannu dyletswyddau, sy'n mynd i fod yn anodd, yn drwsgl, yn llafurus ac yn aneffeithiol. Hefyd, po fwyaf yw maint y wardiau, anoddaf y bydd i ganfasio ar adeg etholiad.
- Y byddai Sustem PSD yn golygu colli sofraniaeth ardal fechan gyda neb bellach yn cynrychioli ardal cwbl wledig. Byddai hefyd yn golygu colli ardaloedd hanesyddol a'u ffiniau.
- Y byddai wardiau mwy yn golygu bod mwyafrif yr etholwyr yn drefol a byddai'n anodd i'r cynghorydd gynrychioli'r ddwy garfan yn ei ward, sef pobl cefn gwlad a phobl y dref.
- Gan fod ffiniau wardiau o dan y Sustem PSD yn anhysbys ar hyn o bryd, disgwylir i'r Cyngor bleidleisio'n ddall ar y mater.
- Mai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru fyddai'n penderfynu ar ffiniau'r wardiau newydd dan Sustem PSD, sef yr union bobl sydd wedi argymell creu etholaeth newydd ar gyfer Senedd Cymru fyddai'n ymestyn o Aberdaron yr holl ffordd i'r ffin â Lloegr. Credir bod hynny'n gwbl anaddas ac anghydnaws.
- Ni chredir bod y sustem wedi torri. Yn hytrach, difaterwch sy'n rhwystro pobl rhag mynd i bleidleisio oherwydd eu bod wedi'u siomi gymaint dros y blynyddoedd gydag addewidion gwag gwleidyddion, ac nid oedd symud i Sustem PSD yn mynd i newid hynny.
- O ran y drefn rhestrau caeedig, bod peryg' i bobl o'r tu allan i'r gymuned gael eu hethol i seddau diogel, gan mai pleidiau, ac nid etholwyr, sy'n cael penderfynu pwy fydd yn eu cynrychioli.
- Mai rôl cynghorydd lleol yw bod yn llais lleol dros ei gymuned ac nid bod yn rhan o gonsortiwm sy'n gwasanaethu rhanbarth cyfan. Golyga trefn o'r fath golli atebolrwydd.
- Er yr honnir na fyddai neb yn cael ei ethol yn ddiwrthwynebiad dan Sustem PSD, nid oes yna unrhyw sicrwydd y bydd mwy o bobl yn sefyll etholiad mewn wardiau 3-6 aelod.
- Ni chredir y byddai Sustem PSD yn arwain at wleidyddiaeth fwy caredig, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb i hynny.
- Bod 61% o'r cynghorau tref a chymuned a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi ymateb yn gryf yn erbyn unrhyw newid i'r drefn. Gan fod y cynghorau tref a chymuned hynny wedi'u hethol drwy gyfundrefn ddemocrataidd, hwy sy'n gynrychioliadol o boblogaeth y sir. I'r gwrthwyneb, roedd 72% o'r unigolion a ymatebodd o blaid newid y drefn, ond credir bod cynghorau tref a chymuned yn dipyn trymach yn y glorian.

- Y byddai newid i Sustem PSD a chynyddu maint y wardiau yn cymylu'r berthynas rhwng poblogaeth ein hardaloedd a'r sawl sy'n cynrychioli'r boblogaeth honno gan arwain at bellter, dieithrwch, anghynefindra a diffyg gwybodaeth ymysg cynrychiolwyr a phoblogaeth yr ardaloedd maent yn eu cynrychioli. Byddai'r drefn hefyd yn siŵr o arwain at fwy o ddifrawder a llai o ddiddordeb oherwydd teneuo'r cyswllt rhwng etholiadau lleol ac ardaloedd lleol.
- Y byddai Sustem PSD yn ffafrio pleidiau ariannog a threfnedig. Yn achos Gwynedd, er y byddai'n siŵr o ffafrio Plaid Cymru, byddai hefyd yn ffafrio pleidiau eraill, gan gynnwys pleidiau asgell dde eithafol.

Ar nodyn mwy cyffredinol:-

- Mynegwyd cryn anfodlonrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i gynghorau unigol benderfynu ar eu trefn bleidleisio eu hunain, yn hytrach na bod cyfarwyddyd ar sut i weithredu yn dod o'r canol.
- Awgrymwyd bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos nad sustem bleidleisio sydd flaenaf ym meddyliau pobl y sir ar adeg o gyni ariannol a thoriadau.

Pleidleisiwyd ar y cynnig, sef:-

Yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn penderfynu mabwysiadu sustem pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd o hyn ymlaen.

Nododd y Cadeirydd fod 45 aelod wedi pleidleisio o blaid, 1 wedi atal a 22 yn erbyn.

*(Er mwyn mabwysiadu sustem pleidlais sengl drosglwyddadwy roedd yn ofynnol i nifer yr aelodau o blaid fod o leiaf dwy ran o dair o nifer y seddi ar y Cyngor, sef 46 allan o 69. Gan na chyrhaeddwyd y trothwy o 46, ni fydd y drefn yn newid ar gyfer etholiadau 2027 ac ni fydd adolygiad Trefniadau Etholiadol yn cychwyn.)*

**PENDERFYNWYD peidio mabwysiadu sustem pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd o hyn ymlaen yn unol ag Adran 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 3.10yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**